Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO/RB/SG

15 Chwefror 2016

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror yn amgáu adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar yr adolygiad o’r system deisebau cyhoeddus. Rwyf yn ddiolchgar i chi a’ch pwyllgor am y gwaith yr ydych wedi’i wneud ar yr adolygiad hwn, ac rwyf yn falch eich bod yn teimlo bod y system ddeisebau yn rhan werthfawr o weithdrefnau’r Cynulliad.

Rwyf wedi dwyn eich adroddiad a’i argymhellion i sylw’r Pwyllgor Busnes. Fodd bynnag, gan fod cyn lleied o amser ar ôl yn y Cynulliad hwn, rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod yr argymhellion perthnasol yn cael eu dwyn i sylw’r Pwyllgor Busnes newydd yn gynnar yn y Cynulliad nesaf.

Fy marn gychwynnol yw bod eich adroddiad yn ei gyfanrwydd yn cynnig ffordd ddefnyddiol ymlaen ar gyfer gwella’r system deisebau cyhoeddus, a’i gwneud yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, rwyf braidd yn amheus o’ch argymhelliad y gallai system ddeisebau’r Cynulliad gael ei defnyddio ar gyfer deisebau ar faterion nad ydynt wedi’u datganoli. Rwyf yn credu y bydd angen i’r Llywydd newydd ystyried yn ofalus yr oblygiadau o ran adnoddau yn sgil newid o’r fath, a pha mor ddefnyddiol fyddai i’r cyhoedd ddeisebu’r Cynulliad ar faterion lle nad oes ganddo unrhyw gymhwysedd.

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg/We welcome correspondence in Welsh or English**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Llywydd
Presiding Officer

Yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar eich adroddiad ar 2 Mawrth. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau drwy'r ddadl honno, ac rwyf yn sicr y bydd yn werthfawr o ran llywio ystyriaeth y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes newydd mewn perthynas â'ch argymhellion.

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**